# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2019**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3**
**3020U30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3**

**HAF 2019**

## ADRAN A

**A1:** Dewis y 4 ateb cywir – **4 marc** (1 marc yr un)

1. Helpu pwy?

| | | |
|---|---|---|
|  |  |  |
| | ✓ | |

2. Sawl swyddfa?

| | | |
|---|---|---|
| 13 | 31 | 131 |
| | ✓ | |

3. Amser agor yn y bore?

| | | |
|---|---|---|
| 9:00 | 9:15 | 9:30 |
| ✓ | | |

4. Cysylltu?

| | | |
|---|---|---|
| |  |  |
| | | ✓ |



© WJEC CBAC Cyf.

**A2:**

Dewis y 3 llun priodol = **3 marc** (1 marc yr un)

|  |  |  |
|---|---|---|
| | ✓ | ✓ |

|  |  |
|---|---|
| | ✓ |

**A3:**

Cywiro CV – **10 marc**: 1 marc yr un am gywiro pob camgymeriad. Nid oes rhaid i'r atebion canlynol fod mewn trefn.

1) Heol/Hewl
2) saith
3) Rhagfyr
4) hanes
5) Ffrangeg
6) Gweithiais/Gweithies/Ddaru mi weithio/Mi weithiais/Gweithais
7) ydy/yw / ydi
8) i'r
9) pêl-fasged/pêlfasged/bêl-fasged
10) athro



© WJEC CBAC Cyf.

**A4: Gwaith rhan-amser:** **[12]**

(i) Pwyntiau da am waith rhan-amser: 4 marc (2 farc yr un)

Unrhyw 2 o'r canlynol: gwneud ffrindiau newydd / dysgu mwy am y gweithle / ennill arian / helpu dysgu sgiliau / dysgu gweithio mewn tîm / dysgu sut i siarad gyda'r cwsmeriaid / dysgu sut i ddatrys problemau / helpu yn y dyfodol

(ii) Problemau am waith rhan-amser: 4 marc (2 farc yr un)

Unrhyw 2 o'r canlynol: does dim amser i weithio / dydy pobl un deg chwech oed ddim i fod i weithio / mae'n gallu bod yn ddiflas / mae'n flinedig / pobl ifanc i fod i gael hwyl / pobl ifanc i fod yn mwynhau bywyd / gwneud chwaraeon ar y penwythnos / chwarae criced ar ddydd Sadwrn

(iii) Cytuno gyda phwy a rhoi 2 reswm: 4 marc (2 farc am bob rheswm)

- Enw: Beca, Gareth neu Rory (dim marc)
- 2 reswm – 4 marc
- 1 marc am reswm sylfaenol: e.e. Dydw i ddim yn hoffi gwaith rhan-amser fel Gareth.
- 2 farc am reswm estynedig: e.e. Dw i'n cytuno gyda Rory achos bydd gwaith rhan-amser yn helpu gyda swyddi yn y dyfodol.

**A5: Graff Gweithgareddau Hamdden** **[11]**

(i) Beth ydych **chi'n /** wyt **ti'n** gwneud yn eich / dy amser hamdden**?** (1 marc yr un)

(ii) Llenwi bylchau:
- chwaraeon
- gemau cyfrifiadur
- siopa
- darllen

(iii) Cytuno / Anghytuno
- Ydw / Nac ydw neu ymateb symhwyrol e.e. yn bendant, wrth gwrs (1 marc)
- 2 reswm = 4 marc (2 farc posibl am bob rheswm)Rheswm syml / iaith gwbl gywir = 2 farc
- Rheswm estynedig / iaith ddealladwy = 2 farc
- Rheswm syml / iaith ddealladwy = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**B6: Cymraeg Campus** **[12]**

(i) Dewis y 3 cham pwysig: 9 marc
- 3 x camau mewn trefn: 1 marc yr un
- 3 x rhesymau: hyd at 2 farc am bob rheswm

e.e.

| CAM | RHESWM (Sylfaenol) | RHESWM (Estynedig) |
|---|---|---|
| Arwyddion a phosteri Cymraeg o gwmpas yr ysgol (1 marc) | Mae posteri fel Croeso yn bwysig. (1 marc) | Mae posteri ac arwyddion dwyieithog yn bwysig. Maen nhw'n hysbysebu'r Gymraeg. (2 farc) |
| Cymraeg yn bwysig (1 marc) | Dw i'n hoffi siarad Cymraeg (1 marc) | Hoffwn i siarad Cymraeg yn rhugl (2 farc) |

(ii) Dewis cam sy'n bwysig yn yr uwchradd: 3 marc
- Cyfeiriad at un o'r camau: 1 marc
- Rheswm synhwyrol: hyd at 2 farc

e.e.

| | |
|---|---|
| Mwynhau dysgu Cymraeg (1 marc) | Mae dysgu Cymraeg yn fendigedig. (1 marc)<br>Mae pobl ifanc eisiau gwersi cyffrous a diddorol.<br>Dylai'r Gymraeg fod yn hwyl ac yn her. (2 farc) |

**B7:** **[10]**

Cyfieithu poster: 1 marc am bob gair / ymadrodd
Dyma'r cyfieithiadau awgrymedig ar gyfer yr ymadroddion gwahanol ond edrychir ar atebion posibl eraill ar sail unigol.

1) Dewch / Dere / Tyrd / Tyd
2) a dysgu / i ddysgu Cymraeg / astudio Cymraeg / siarad Cymraeg
3) Mae'n hwyl / wych / fendigedig / sbri
4) Mae'n her / sialens / heriol / anodd / Dydy hi ddim yn hawdd
5) Mae'n brofiad newydd / cyfle newydd / rhywbeth newydd
6) Bydd yn helpu
7) yn y dyfodol / yn y flwyddyn nesaf / blwyddyn nesaf
8) Ffoniwch / Cysylltwch â / Ffonwch
9) Elan neu Jeff / hefyd
10) ar 0733710026

1 marc ychwanegol am gyfuniad o 2 o'r geiriau canlynol – hwyl; dysgu; her; profiad; helpu; dyfodol; newydd; bydd.



© WJEC CBAC Cyf.

**B8: Enillwyr Gwobrau Cymraeg** **[18]**

(i) Llenwi grid: 6 marc (1 marc yr un)

| | Daniella Schlick | Rebecca Jones |
|---|---|---|
| Gwobr 2017 | Dysgwr y Flwyddyn | Medal y Dysgwyr |
| Geni – Ble? | Yr Almaen | Aberdâr |
| Help i ddysgu Cymraeg? Gan bwy? | Elwyn Hughes / tiwtor | Christine James / tiwtoriaid / coleg y Brifysgol Abertawe |

(ii) Tebygrwydd rhwng Daniella a Rebecca: 2 farc

Unrhyw ateb synhwyrol e.e. merched ydyn nhw / maen nhw wedi ennill gwobrau am ddysgu Cymraeg / wedi dysgu Cymraeg / yn meddwl bod siarad Cymraeg yn bwysig.

(iii) Cywir / Anghywir: 4 marc

| | CYWIR | ANGHYWIR |
|---|---|---|
| Mae Daniella yn ddwyieithog | ✓ | |
| Does neb yn nheulu Rebecca yn siarad Cymraeg | | ✓ |
| Mae Daniella yn poeni am blant bach yn dysgu Cymraeg | | ✓ |
| Mae siarad Cymraeg yn gallu helpu yn y gweithle | ✓ | |

(iv) Ysgrifennu neges at Daniella neu Rebecca: 6 marc

- Dweud pwy ydych chi (1 marc) a ble rydych chi'n dysgu Cymraeg (1 marc)
- Mynegi barn am neges Daniella neu Rebecca (2 farc)
- Gofyn cwestiwn am ddysgu Cymraeg (1 marc) e.e. Wyt ti'n hoffi treigladau?, Wyt ti'n siarad Cymraeg gyda ffrindiau?
- Gorffen yn briodol (1 marc)



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran C**

**C9**. ***(a)* Naill ai**:

Ysgrifennwch **yn Gymraeg** ar un o'r canlynol.

*Write **in Welsh** on one of the following.*

Roedd gwaith rhan-amser gyda chi yn ystod Gwyliau'r Pasg. Roeddwch chi'n helpu gyda'r clwb plant lleol. Mae'r Pennaeth wedi gofyn i chi ysgrifennu **yn Gymraeg** am eich profiad yn y cylchgrawn ysgol. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- manylion y clwb plant a'r gweithgareddau gwahanol
- manteision y profiad
- diwedd priodol

***(b)* Neu**:

Rydych chi'n gweithio fel tiwtor Cymraeg yn yr ardal. Rydych chi wedi penderfynu dechrau ysgrifennu Blog **yn Gymraeg** ar gyfer pobl sy'n dysgu'r iaith. (Tua 150 gair)

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu
- manteision dysgu Cymraeg a chwestiynau am unrhyw broblemau wrth ddysgu Cymraeg
- cyfleoedd dysgu Cymraeg yn yr ardal
- diwedd priodol



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C: Ysgrifennu** **[20]**

**C9: Naill ai:** Disgrifiad o'r gwaith gyda'r clwb plant. **Neu**: Blog ar gyfer pobl sy'n dysgu Cymraeg

| **CYNNWYS** | | **MYNEGIANT** | |
|---|---|---|---|
| **Band 5**<br><br>**9-10 marc**<br>Rhaid cynnwys 3 phwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2 a 3 | • **Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus**<br>• **Amrywiaeth eang o syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn**<br>• **Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol** | **Band 5**<br><br>**9-10 marc** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir<br>• Sillafu ac atalnodi cywir |
| **Band 4**<br><br>**6-8**<br>**Marc**<br>Rhaid cynnwys 3 phwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2 neu 3 | • **Cynllunio amlwg a dilyniant priodol**<br>• **Peth amrywiaeth o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn**<br>• **Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol** | **Band 4**<br><br>**6-8**<br>**Marc** | • Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan<br>• Sillafu ac atalnodi eithaf cywir |
| **Band 3**<br><br>**3-5**<br>**Marc**<br>Rhaid cynnwys 2 bwynt bwled yn cynnwys pwyntiau bwled 2 neu 3 | • **Ôl cynllunio a dilyniant gweddol naturiol**<br>• **Digonol o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan**<br>• **Gwaith gweddol ddiddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb** | **Band 3**<br><br>**3-5**<br>**Marc** | • Cyfathrebu'n weddol rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| CYNNWYS | | MYNEGIANT | |
|---|---|---|---|
| **Band 2**<br><br>**1-2**<br>**Marc**<br>Rhaid cynnwys cyfeiriad at o leiaf 1 pwynt bwled | • **Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu yn synhwyrol**<br>• **Arwynebol iawn o ran syniadau a barn**<br>• **Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml**<br>• **Gwaith gweddol ddiddorol** | **Band 2**<br><br>**1-2**<br>**Marc** | • Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presenno<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir |
| **Band 1**<br>**0 marc** | **Ymateb amhriodol neu heb ymateb** | **Band 1**<br>**0 marc** | Mynegiant amhriodol neu heb ymateb |



© WJEC CBAC Cyf.